ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cymorth milwrol yn ystod COVID-19

Mae **elusennau** wedi addasu'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus, er enghraifft **Woody's Lodge**, **Change Step** a **VC Gallery** yn cynnal sesiynau rhithwir ac yn helpu gyda **pharseli bwyd**.

Mae aelodau o'r Lluoedd Arfog wedi cefnogi ein GIG a'n cymunedau – gan helpu gyda'r gwaith o gyflwyno'r **brechlyn** Covid 19 a chefnogi **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**.

## Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cymuned ein Lluoedd Arfog

Penodi pedwar **Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol** sy'n cysylltu ag ysgolion ac yn eu helpu i ddeall anghenion **plant aelodau'r** Lluoedd Arfog.

Lansio **Canllaw Adsefydlu cyntaf Cymru**, gan dynnu sylw at y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i **cyn-filwyr** a'u **teuluoedd sydd yn dychwelyd** i **fywyd sifiliaid**.

Cyhoeddi ein pecyn cymorth **Gwneud yn Fawr o Ddoniau Teuluoedd Milwrol**.

Mabwysiadu'r fenter '**Lle Gwych i Weithio i Gyn-filwyr**', gan gydnabod y sgiliau y gall cyn-filwyr eu cynnig i'r gweithle.

Cymryd rhan yn y **cynllun cardiau rheilffordd i gyn-filwyr** sy'n eu galluogi i deithio am bris rhatach.

## Buddsoddi yng nghymuned ein Lluoedd Arfog

**£920,000** y flwyddyn i gefnogi **GIG Cymru i Gyn-filwyr**.

**£342,427** mewn **Grantiau Integreiddio Cymunedol Lleol** a ddyfarnwyd i brosiectau yng Nghymru ar gyfer 2020 a 2021 drwy **Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog**.

**£275,000** wedi'i ddarparu er mwyn i swyddi ein **Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog** barhau tan 2023.

**£250,000** y flwyddyn i gefnogi plant aelodau'r **Lluoedd Arfog yng Nghymru**, er mwyn darparu cymorth penodol, wedi'i dargedu.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

**100** o **bartneriaid** wedi mynychu ein Cynhadledd Flynyddol rithwir gyntaf, gan gydweithio a rhannu straeon llwyddiant.

Datblygu ein gwefan **Cyfamod Cymru**, gan dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i gymuned y **Lluoedd Arfog**.

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42713